# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 3 Mai 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

## 67(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Mesurau Rheoli Ffin

(30 munud)

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Diweddariad ar Wcráin

(30 munud)

## 5 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Presenoldeb Ysgol

(30 munud)

## 6 Dadl: Hawliau Dynol

(60 munud)

**NDM7991** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gryfhau a hyrwyddo hawliau dynol, cydraddoldeb a diogelu cymunedau lleiafrifol yng Nghymru.

2. Yn nodi â phryder difrifol y symudiadau mynych gan Lywodraeth y DU i leihau hawliau dynol.

3. Yn credu bod cynigion Llywodraeth y DU i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol yn tanseilio amddiffyniadau allweddol i ddinasyddion ac yn codi materion cyfansoddiadol sylweddol.

4. Yn credu bod Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd yn tanseilio hawliau cymunedau lleiafrifol ac yn peryglu'r hawl i brotestio'n gyfreithlon ac yn heddychlon.

5. Yn cytuno â Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig y byddai'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau yn tanseilio'n ddifrifol y broses o ddiogelu hawliau dynol ac yn arwain at ymyriadau difrifol â hawliau dynol.

6. Yn galw ar Lywodraeth y DU i wrthdroi ei dull o ymdrin â Hawliau Dynol, sy'n gam yn ôl, a'r tramgwyddo'n erbyn y cyfansoddiad yn sgil hynny.

Diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol: Mesur Hawliau Modern *(Saesneg yn unig)*

Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd *(Saesneg yn unig)*

Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau *(Saesneg yn unig)*

**Cyd-gyflwynwyr**

Sian Gwenllian (Arfon)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddiogelu a chynnal hawliau dynol.

2. Yn nodi cynigion Llywodraeth y DU i foderneiddio a gwneud deddfwriaeth hawliau dynol yn addas i'r diben.

3. Yn credu bod angen cydbwysedd priodol rhwng hawliau a chyfrifoldebau unigol.

4. Yn gresynu at record Llywodraeth Cymru o bleidleisio yn erbyn hawliau dynol gan gynnwys pleidleisio yn erbyn cyflwyno Bil hawliau pobl hŷn yn ystod y Pumed Senedd.

## 7 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 4 Mai 2022

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 27/04/2022 i'w hateb ar 03/05/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

1 OQ57949 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i gynorthwyo aelwydydd ym Mlaenau Gwent gyda'r argyfwng costau byw presennol?

**Buffy Williams** *Rhondda*

2 OQ57967 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i wella bywydau pobl yn Rhondda?

**Joel James** *Canol De Cymru*

3 OQ57951 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth 5G yng Nghymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

4 OQ57969 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch goruchwylio rheoleiddiwr pêl-droed newydd Lloegr?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

5 OQ57985 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y bydd cyllid codi'r gwastad yn ei chael ar seilwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

6 OQ57986 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu nifer y prentisiaethau gradd ledled Cymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

7 OQ57988 **(e)**

Beth yw asesiad y Prif Weinidog o'r cynnydd o ran adeiladu Cymru gynhwysol a goddefgar?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

8

OQ57948 **(w)**

Pa gamau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i gynorthwyo'r sector tai cymdeithasol yn wyneb y cynnydd mewn costau adeiladu?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

9

OQ57952 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gofalwyr di-dâl ledled Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl?

**Ken Skates** *De Clwyd*

10

OQ57953 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at gyhoeddi fersiwn derfynol o strategaeth genedlaethol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol 2022-26?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

11

OQ57982 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ddenu buddsoddiad economaidd mawr i Gasnewydd?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

12

OQ57970 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch gweithredu egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Cynllunio (Cymru) 2016 a Pholisi Cynllunio Cymru yng Nghaerdydd?